

# SÊR YN CAEL EU SWYNO

Ym mis Mawrth 2011 lansiodd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol apêl am £1 filiwn i brynu a gofalu am un o ardaloedd mwyaf diarffordd Eryri.

Mae Llyndy Isaf yn adnabyddus i filiynau o bobl fel cartref Llyn Dinas, y llyn llonydd y mae balŵn coch yn codi oddi ar ei wyneb yn hysbysluniau'r BBC. Mae'r darn 6000 erw o dir hwn o bwys ecolegol ac archeolegol gan nad yw wedi ei gyffwrdd gan ddulliau ffermio modern.

Mae llawer o wahanol fathau o adar ar yr ystad, gan gynnwys hebogiaid tramor a brain coesgoch – ac o bryd i'w gilydd y gweilch y pysgod prin.

Ddwy flynedd yn ôl gweithiodd Ken Owen, perchennog Llyndy Isaf, law yn llaw â'r Ymddiriedolaeth er mwyn atal sgïo jet a sgïo dŵr yno. Petai'n syrthio i'r dwylo anghywir ofnir y gallai'r fferm golli popeth sydd wedi ei arbed hyd yma.

Mae seren 'Brothers and Sisters', yr actor Cymreig Mathew Rhys, wedi cynnig yn hael i fod yn gennad i Apêl Eryri. Dywedodd Matthew, 'Caiff prydferthwch godidog Eryri ei fwynhau gan niferoedd, ond nawr, mae rhan ohoni dan fygythiad. Mae gennym un cyfle ac un cyfle yn unig i brynu ac amddiffyn Llyndy Isaf, gan gynnwys Llyn Dinas, y llyn prydferth oedd yn dyst i'r stori ddramatig roddodd enedigaeth i symbol Cymru, y Ddraig Goch."

Cefnogir yr apêl gan Catherine Zeta Jones a ddywedodd, '...mae prydferthwch a thirwedd Eryri yn unigryw ac mae gennym gyfle i warchod Llyndy Isaf .... os na weithredwn yn awr gallai datblygiad masnachol fygwth difetha tawelwch y rhan arbennig hon o'm mamwlad. Cefnogwch yr apêl!'

Dywedodd Ioan Gruffydd, 'Pan fydda i'n meddwl am Gymru, gwlad fy mebyd, bydda i'n meddwl am y mynyddoedd mawreddog a'r arfordir hardd oherwydd dyma'r llefydd hudolus sy'n gwneud fy ngwlad yn lle mor arbennig.

Os gwelwch yn dda cefnogwch yr apêl er mwyn i blant ein plant gael y cyfle i ryfeddu at brydferthwch y rhan hon o Gymru.'

**SUT ALLWCH CHI GEFNOGI'R APÊL...**
Gallwch roi rhodd i Apêl Eryri mewn tair ffordd hawdd :

- Ar y ffôn gyda chardiau credyd a debyd 0844 800 1895
- Yn y post.Anfonwch sieciau, yn daladwy i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gydag 'Apêl Eryri' ar y cefn i: Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sgwâr y Drindod, Llandudno LL30 2DE
- Ar-lein ar ein gwefan: www.nationaltrust.org.uk/apeleryri

Am y newyddion diweddaraf am yr apêl dilynwch blog Eryri sydd wedi ei ysgrifennu gan Richard Neale, y Rheolwr Cyffredinol.
Ewch i www.ntsnowdonia.wordpress.com

**Ôl nodyn**
Ymatebodd y cyhoedd ar unwaith i alwad Matthew Rhys ac o fewn 100 niwrnod roedd yr apêl wedi sicrhau 75% o'i tharged. Erbyn mis Tachwedd 2011 roedd y genedl yn ymlawenhau bod Llyndy Isaf wedi ei achub.